OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 Rhif 2001 (Cy. 304)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Addasu Canlyniadol) 2015

Gwnaed - - - -	*8 Rhagfyr 2015*
Yn dod i rym - -	*9 Rhagfyr 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 16 o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 17(2) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Addasu Canlyniadol) 2015 a daw i rym ar 9 Rhagfyr 2015.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Addasu Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998

2. Mae adran 46(4) o Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998(**2**) wedi ei haddasu fel a ganlyn —

(a) ar ddiwedd paragraff (b) hepgorer "and";

(b) ar ddiwedd paragraff (c) mewnosoder—

"; and

(d) the Agricultural Sector (Wales) Act 2014."

(**1**) 2014 dccc 6.

(**2**) 1998 p. 39. Mae adran 46(4)(a) wedi ei diddymu gan adran 72 o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 a pharagraff 2 o Atodlen 20 iddi. Nid yw'r diddymiad yn cael effaith yng Nghymru eto.